# Y DDOLEN

## TEULUOEDD WEDI EU HEFFEITHIO GAN GARCHARIAD

## Croeso ...

i ail rifyn y newyddlen hon, sy'n ceisio amlygu'r materion ac anghenion sy'n wynebu plant a theuluoedd yng Ngogledd Cymru sydd ag aelod o'r teulu yn y carchar. Roedd ymateb gwych i'r newyddlen gyntaf ym mis Ionawr, felly diolch i bawb a gysylltodd a chynnig eu cefnogaeth ar gyfer y gwaith. Mae'r newyddlen hefyd wedi annog ceisiadau ar gyfer cefnogaeth uniongyrchol sydd wedi atgyfnerthu pa mor unigryw yw'r heriau ar gyfer y grŵp diamddiffyn hwn o blant a'u teuluoedd.

Felly, bydd y newyddlen hon yn parhau i godi ymwybyddiaeth o'u hanghenion a'r problemau penodol sydd yn eu hwynebu er mwyn i ni, fel cyrff proffesiynol ac asiantaethau, ymgymryd â gwaith ataliol a darparu mwy o gefnogaeth wedi ei thargedu ar gyfer y grŵp cudd hwn mewn cymdeithas, yn ogystal â helpu i dorri'r cylch hwn yn unol â rhaglen Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod.

## Cefnogaeth gref ar gyfer Rhaglen FABI Gogledd Cymru

Bu i rifyn mis Ionawr o'r newyddlen hon gyflwyno gwaith tîm rhanbarthol Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Gogledd Cymru sydd wedi'i roi ar waith i annog newid i gefnogi plant a theuluoedd sy'n cael eu heffeithio gan garchariad aelod o'r teulu.

Ers i'r rhaglen ddechrau, mae nifer y partneriaid sy'n dod ymlaen i gefnogi'r gwaith wedi codi, gyda llawer yn ymuno â Grŵp Llywio Rhaglen teuluoedd a gaiff eu heffeithio gan aelod o'r teulu yn y carchar (FABI). Mae gan y grŵp hwn bellach ugain o aelodau ac mae'n cynnwys partneriaid Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Gogledd Cymru, Carchar Berwyn, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Canolfan Gefnogaeth Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod Cymru, Barnardos Cymru a Novus. Mae cynrychiolaeth o faes troseddau ieuenctid ac o Garchar Styal hefyd, fel bod anghenion teuluoedd Gogledd Cymru sydd ag aelod o'r teulu yn y carchar y tu allan i Ogledd Cymru hefyd yn cael eu hystyried.

Os hoffech ddeall mwy am y gwaith, cysylltwch â'r tîm rhanbarthol, Sara Kettle a Catherine Pritchard, ar: sara.kettle@wrexham.gov.uk / 01978 292453 neu catherine.pritchard@wrexham. gov.uk / 01978 292444. Ar hyn o bryd, nid oes gwasanaethau pwrpasol ar lefel Gogledd Cymru i gefnogi'r plant a'r teuluoedd hyn, fodd bynnag, gall y tîm eich cyfeirio at adnoddau hyfforddiant neu gefnogaeth a sefydliadau amgen fel Pact (Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal Carchardai) sy'n gweithredu'n lleol. Gweler hefyd newyddlenni yn y dyfodol i'ch cyfeirio. Maent ar hyn o bryd yn paratoi cyfeirlyfr o adnoddau defnyddiol a gwasanaethau cymorth y gall gweithwyr proffesiynol a theuluoedd eu defnyddio. Os oes gennych unrhyw beth y byddai'n ddefnyddiol ei gynnwys yn y cyfeirlyfr, cysylltwch â nhw.

## YN Y RHIFYN HWN:


Cefnogaeth gref ar gyfer Rhaglen FABI Gogledd Cymru

Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal Carchardai (PACT) yn helpu nifer gynyddol o blant a theuluoedd sy'n ymweld â Charchar Berwyn

Sut mae colled, stigma a chyfrinachedd yn effeithio ar blant sydd â rhiant yn y carchar


Plant gyda mamau yn y carchar yn wynebu'r amhariad mwyaf

'Byw gyda Mam' yng Ngharchar Styal, Swydd Gaer

'Dull Teulu Cyfan' Pen-y-bont ar Ogwr yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau

Ymgysylltu ysgolion yn dechrau

Diweddariad ar Brofiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod

Mae'r newyddlen hon wedi'i pharatoi ar ran Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Gogledd Cymru, y Bwrdd Cynllunio Ardal a Charchar Berwyn.

BERWYN · Sir y Fflint Flintshire · NHS Wales GIG Cymru Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board · Cyngor Gwynedd Council · Cyngor Sir Ddinbych Denbighshire County Council · Wrexham Wrecsam · Cyngor Sir Ynys Môn Isle of Anglesey County Council




# Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal Carchardai (PACT) yn helpu nifer gynyddol o blant a theuluoedd sy'n ymweld â Charchar Berwyn

Ym mis Mawrth 2018, bu i 1,215 o blant ymweld â Charchar Berwyn. Ym mis Rhagfyr 2017, daeth 1,619 o blant i ymweld â'r carchar wrth i'r Nadolig ddod â'r dynion a'u teuluoedd yn nes at ei gilydd.

Mae Pact yn rhedeg y gwasanaeth ymgysylltu teuluoedd yn y carchar. Mae staff yn ymgysylltu â theuluoedd pan fyddant yn cyrraedd a'u cefnogi'n emosiynol drwy beth allai fod yn broses eithaf trawmatig. Ym mis Chwefror, cafodd PACT gyfanswm o 970 o ymholiadau o ran materion teuluol.

Sandra Edwards yw'r Rheolwr Ymgysylltu Teuluoedd; hi sy'n gyfrifol am redeg y ganolfan ymwelwyr a hi yw'r arweinydd ar gyfer y gwasanaeth ymgysylltu teuluoedd. Mae Sandra yn rhwydweithio gydag asiantaethau allanol, gan gasglu gwybodaeth i gyfeirio teuluoedd at gyngor, canllawiau, cyfleoedd dysgu a chefnogaeth i'w galluogi i gael perthnasoedd cadarnhaol gyda'r aelod o'r teulu sydd yn y carchar. Pan fydd y plant yn ymweld, mae staff Sandra yn trefnu gweithgareddau chwarae ar eu cyfer. Maent hefyd yn cysylltu gydag ysgolion i gefnogi absenoldeb awdurdodedig ar gyfer ymweliadau. Mae fforymau misol gyda'r Rheolwr yn caniatáu i'r plant a'r teuluoedd ddylanwadu ar waith mae Pact yn ei wneud.

Mae Pact hefyd yn cefnogi'r dynion yng Ngharchar Berwyn i ailsefydlu cysylltiadau gydag aelodau'r teulu, gan eu helpu i wneud cais am gyswllt gyda'u plentyn a chysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol. Maent hefyd yn cyfryngu rhwng aelodau'r teulu ac yn darparu cefnogaeth emosiynol, lle bo angen. Mae Pact yn un o'r darparwyr sy'n hwyluso cyrsiau teulu i'r dynion hefyd. Mae pedwar cwrs teulu ar gael sy'n galluogi'r dynion i ddysgu mwy am eu plant a pherthnasoedd iach sy'n cynnwys diwrnodau teulu fel bod y dynion yn gallu dangos i'w plant beth maent wedi'i ddysgu.

Os hoffech gysylltu â Pact am unrhyw faes o'u gwaith a/neu os oes gennych unrhyw wybodaeth a all gefnogi eu gwaith, cysylltwch â Sandra Edwards: Sandra.Edwards2@hmps.gsi.gov.uk



Mae Pact wedi datblygu llyfr, 'Locked Out', i gefnogi plant i ymdopi pan fydd un annwyl iddynt wedi ei garcharu. Mae'r llyfr yn cynnwys canllawiau defnyddiol i rieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant ac amrywiaeth o weithgareddau difyr a llawn gwybodaeth i blant. Eu gwefan yw: https://www.prisonadvice.org.uk/

*Sandra Edwards, Rheolwr Ymgysylltu Teuluoedd Pact*

# Plant sydd â mam yn y carchar yn wynebu'r amhariad mwyaf

Amcangyfrifir bod mam tua 18,000 o blant yn y DU yn y carchar. Dim ond 9% o blant sydd â mam yn y carchar sy'n cael gofal gan eu tad. Efallai bod modd egluro'r nifer isel o dadau sy'n gofalu am eu plant tra mae'r fam yn y carchar yn rhannol gan y ffaith ei bod yn bosibl bod hyd at draean o'r tadau hyn yn y carchar eu hunain. O ganlyniad, dim ond 5% o blant sydd â mam yn y carchar sy'n aros yn y cartref roeddent ynddo cyn i'w mam gael dedfryd o garchar, sy'n golygu eu bod yn cael eu tynnu o'r sefydlogrwydd a ddarperir gan ffrindiau a'r ysgol ar yr adeg mae arnynt ei angen fwyaf. Felly, mae plant sydd â mam yn y carchar yn wynebu llawer mwy o amhariad na phlant sydd â thad yn y carchar, yn gyffredinol. Mae hyn wedi'i ddwysáu gan y ffaith fod y rhan fwyaf o famau yn y carchar 60-150 milltir o gartref, sy'n golygu bod ymweliadau gan eu plant yn anodd.

Nid oes carchardai yng Nghymru i ferched.

Dychmygwch sut mae'n teimlo i'r plentyn ... beth maen nhw'n ei ddweud? (yn sydyn efallai gyda Theidiau a Neiniau/Gofalwyr)

- "Ydi o fel y teledu? Fydd ganddi fariau ar ei 'stafell? Fydd hi'n cael bwyd?" (Milly 8 oed)
- Pam wnaeth yr heddlu wneud llanast yn fy stafell i hefyd – dwi ddim wedi gwneud dim byd, wir. (Liam 5)
- Pam na cha'i eistedd ar dy lin di, mam? Beth os wna i ddweud y bydda i'n dda? (Polly 4 ½)
- Pam wnaethon nhw edrych yng nghlwt Penny? (Molly 9)
- Os na alla i ymdopi, fydd fy chwiorydd yn mynd i ofal? (Mia 17)
- Doeddwn i methu gorffen yn y coleg – ond dyna ni, ynde (Ian 17)
- Dwi'n meddwl mai chwilio am gariad oeddwn i (Mandy 16)
- Fyddan nhw'n ei gadael hi allan os wna i ddweud ei bod hi'n ben-blwydd arna i? (Daisy 7 ¼)



*Dyfyniad o gyflwyniad gan Lucy Baldwin, Prifysgol De Montfort, Caerlŷr, 9.3.18 ar 'Effaith Mamau yn y Carchar ar Famau a'u Plant'*



# Sut mae Colled, Stigma a Chyfrinachedd

## yn Effeithio ar Blant gyda Rhiant yn y Carchar

Mae'r erthygl hon wedi'i darparu gan Ben Raikes, Adran Gwaith Cymdeithasol, Prifysgol Huddersfield

Mae gwaith ymchwil yn cadarnhau bod plant sy'n cael eu heffeithio gan fod rhiant yn y carchar yn debygol o brofi stigma gan eu cyfoedion a'r gymuned ehangach, er enghraifft, ar ffurf galw enwau yn yr ysgol. Felly, mae nifer o deuluoedd yn gyndyn o ofyn am help. Dywedir wrth rai plant am beidio â thrafod eu rhiant sydd yn y carchar gyda neb, nid hyd yn oed eu ffrind gorau, sy'n ychwanegu at eu hunigedd. Ni roddir eglurhad iawn i blant eraill a dim ond gwybodaeth amwys fyddant yn ei chael yn aml, fel 'maen nhw'n gweithio i ffwrdd'. Mae'r plant hyn yn agored i gael sioc o glywed y gwir pe bai plentyn arall yn yr ysgol efallai wedi edrych ar-lein yn dweud wrthynt.

Os na roddir eglurhad iawn i blant, maen nhw'n dioddef 'colled amwys', lle mae eu byd yn dechrau troi'n ansicr wrth iddynt ddechrau amau pethau eraill mae oedolion yn ei ddweud wrthynt. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd plant yn poeni am eu rhiant yn y carchar, ac yn eu colli, gan brofi colli'r rhiant hwnnw mewn ffordd debyg i brofedigaeth. Fodd bynnag, mae'n brofedigaeth maen nhw'n cael eu hatal rhag siarad amdani oherwydd y cywilydd mae eu sefyllfa'n ei beri, a hyd yn oed pe baent yn rhannu eu sefyllfa, nid oes sicrwydd y byddant yn cael ymateb empathig. Mae'r teimladau hyn o golled wedi'u disgrifio fel 'galar heb ryddid'

Pan na fydd plant yn cael ymweld â'u rhiant yn y carchar, maen nhw'n debygol o ddychmygu'r gwaethaf o ran sut mae eu rhiant yn ymdopi, a allai, yn ei dro, fod yn niweidiol i'w lles meddyliol.

Mewn rhai achosion, pan fo plant yn ddioddefwyr o droseddau eu rhiant, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, gallai'r ffaith fod eu rhiant yn y carchar fod yn rhyddhad. Fodd bynnag, mae plant yn y sefyllfa honno hyd yn oed yn debygol o brofi teimladau amwys am y rhiant sydd yn y carchar. Mae darparu cefnogaeth i'r plant hyn i'w helpu i ymdopi â'r teimladau ac i gynorthwyo eu dealltwriaeth yn allweddol.

| AMRYWIOL | EFFAITH |
|---|---|
| Mam neu tad yn y carchar | Mae bod â mam yn y carchar fel arfer yn fwy aflonyddol |
| Ymlyniad blaenorol/dim ymlyniad blaenorol | Yn pennu sut caiff gwahanu ei brofi |
| Math o drosedd | Yn pennu lefel y stigma a brofir |
| Dedfryd ddiffiniedig neu anniffiniedig | Dyddiad i anelu ato neu deimlad o anobaith |
| Ethnigrwydd y carcharor | Pryder ychwanegol o ran hiliaeth ac anghenion diwylliannol |
| Math o garchar | Categori diogelwch is = cyswllt mwy ystyrlon |
| Gofalwr a'u hagwedd | Gofalwr fel ceidwad cyswllt a gwybodaeth |
| Byw tu allan i'r teulu | Ychydig o ymchwil ar 'riant corfforaethol' a Phlant sy'n Derbyn Gofal |

Yr Effaith Amrywiol ar y Plentyn drwy Daith y System Cyfiawnder Troseddol:

- Cyn y drosedd – straen, sy'n gysylltiedig â throseddu (neu beidio)
- Arestio – trawmatig, yn debyg i dorri i mewn, os yw'n cyrch ar doriad y wawr
- Mechnïaeth / Cadw yn y Ddalfa – ansicrwydd, rhiant yn dirywio
- Dedfryd – sioc neu efallai eu bod wedi'u paratoi'n dda
- Ymweld – newid carchardai – rheolau newydd - straen
- Rhyddhau – addasu eto – mae'n bosibl na fydd y rhiant sydd wedi'i ryddhau yn cydnabod bod bywyd wedi symud ymlaen hebddynt

# 'Byw gyda Mam' yng Ngharchar Styal, Swydd Gaer

Carchar Styal yw'r carchar agosaf i ferched sy'n dod o Ogledd Cymru. Mae'n darparu ar gyfer oedolion a throseddwyr ifanc. Mae tua 2 filltir i'r de-orllewin o Faes Awyr Manceinion rhwng Wythenshawe a Wilmslow.

Gall pellteroedd hir rhwng cartref y teulu a'r carchar fod yn rhwystr difrifol i ymgysylltu â theuluoedd. Nid yn unig mae cost teithio mor bell yn galedi ariannol, mae hefyd yn cymryd amser hir i deithio'r pellteroedd hyn ac i blant bach, gall fod yn flinedig ac yn llawn tensiwn. Fodd bynnag, mae Styal yn darparu diwrnodau i'r teulu i ferched nad ydynt yn lleol ar sail unigol i helpu i gefnogi teuluoedd. Mae'r carchar hefyd yn ffodus o gael Uned Mamau a Babanod sy'n cael ei rheoli gan Family Action sy'n gweithio'n agos gyda'r Awdurdod Lleol i ddarparu atebion effeithiol i ferched sy'n teithio pellteroedd hir.

Mae chwe Uned Mamau a Babanod yn Lloegr ar hyn o bryd ac mae Gwasanaeth Styal yn darparu ar gyfer naw mam a deg o fabanod. Mae hyn yn galluogi merched i ffurfio ac adfer perthynas a hefyd ymlyniad gyda'u babanod. Gall babanod yn gyffredinol aros ar yr Uned Mamau a Babanod gyda'u mamau o adeg eu heni hyd at 18 mis oed. Yn ystod eu harhosiad ar yr Uned Mamau a Babanod, gall mamau gael mynediad i gyrsiau rhianta, tylino babanod, amser rhiygymau, chwarae anniben, cefnogaeth bwydo ar y fron a dosbarthiadau cynenedigol. Caiff mamau eu cefnogi gan staff Blynyddoedd Cynnar i ddatblygu ymlyniad cryf a sgiliau rhianta da. Mae'r uned wedi'i staffio gan staff Family Action o 07.30am tan 08.00pm, 365 diwrnod y flwyddyn. Gall Mercher ar yr Uned Mamau a Babanod gael ymweliadau heb gyfyngiad gan eu plant a hefyd ymweliad teulu cyswllt llawn gyda'u hanwyliaid bob mis.

I alluogi'r mamau i gael mynediad i waith rhan amser yn y carchar, mae gwasanaeth meithrinfa "Rhagorol" Ofsted sy'n gofalu am y babanod. Mae'r Uned Mamau a Babanod yn gweithio mewn partneriaeth agos gyda Phoenix Futures sy'n darparu'r gwasanaethau teuluoedd yn y canolfannau ymwelwyr ac sy'n cyd-gynhyrchu digwyddiadau teulu.

Fel ymarferydd os ydych yn credu y gallwch gefnogi Styal i greu canlyniadau cadarnhaol i'r babi, plentyn, teulu a mam o Ogledd Cymru, cysylltwch â Nanette Steel ar: nanette.steel@family-action.org.uk

*Mae'r erthygl hon wedi'i darparu gan Nanette Steel, Carchar Styal.*



Chwaraeon i'r Teulu yn Ngharchar Berwyn

## Y Ganolfan Wybodaeth Genedlaethol ar Blant Troseddwyr

Mae'r ganolfan wybodaeth genedlaethol ar blant troseddwyr yn ganolfan wybodaeth i gefnogi gweithwyr proffesiynol wrth weithio gyda phlant a theuluoedd y rhai sydd yn y ddalfa, gan ddod â gwybodaeth ddefnyddiol at ei gilydd mewn un lle.

Gweler: https//www.nicco.org.uk

# Arfer gorau yn y DU a'r Iseldiroedd yn cael canmoliaeth yng Nghynhadledd Caerdydd

Mewn cynhadledd ddiweddar yng Nghaerdydd, a gyflwynwyd gan G4S a Chanolfan Trosedd a Chyfiawnder Cymdeithasol Cymru, clywodd cynulleidfa o academyddion, llunwyr polisi ac ymarferwyr gan siaradwyr nodedig o'r DU a'r Iseldiroedd yn disgrifio enghreifftiau arloesol o fentrau i gryfhau cysylltiadau carcharorion gyda'u plant a'u teuluoedd. Roedd y rhain yn cynnwys yr Arglwydd Farmer, awdur adolygiad mawr ar y pwnc yn y DU, ac Angela Christopher o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, sy'n arwain ar weithredu ei argymhellion.




Gweithgareddau i'r Teulu yng Ngharchar Berwyn

# 'Dull Teulu Cyfan' Pen-y-bont ar Ogwr yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau

University of South Wales
Prifysgol De Cymru

## Plentyn B cyn ac wedi IWW



Bu i'r gynhadledd hefyd arddangos Invisible Walls Wales (IWW), prosiect amlasiantaeth 'trwy'r giât' a ddatblygwyd yng Ngharchar Parc, Pen-y-bont ar Ogwr. Mae IWW yn mabwysiadu dull 'teulu cyfan' gyda nodau lles cymdeithasol a chyfiawnder troseddol. Mae'n ceisio gwella ansawdd bywyd yr holl gyfranogwyr a gwella eu perthynas fel teulu, yn ogystal â lleihau'r risgiau o aildroseddu gan y tad a throseddu yn y dyfodol gan ei blentyn/plant. Y prif bartneriaid sy'n gweithio gyda G4S yw Barnardos Cymru, Gwasanaethau Cymdeithasol Pen-y-bont ar Ogwr a Gwalia.

Adroddodd ymchwilwyr o Brifysgol De Cymru am ganfyddiadau o werthusiad annibynnol oeffaith IWW, a ddaeth i'r casgliad bod IWW wedi bod yn arbennig o lwyddiannus, ar ôl cael effaith gadarnhaol sylweddol ar fywydau carcharorion a theuluoedd. Ar gyfer y plant a gymerodd ran, roedd newidiadau yn dangos gwelliannau o ran eu lles emosiynol, lefelau sylw, ymddygiad a pherthnasoedd gyda chyfoedion. Roedd gostyngiad yn nifer y plant a oedd angen cefnogaeth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ar ôl IWW hefyd.

Un o brif lwyddiannau'r prosiect oedd ymgysylltu ag ysgolion, a arweiniodd at gysylltiadau uniongyrchol rhwng IWW ac athrawon unigol y plant hynny a gymerodd ran, digwyddiadau arddangos rhieni/athrawon a gynhaliwyd yn y carchar a datblygiad trefniant ffurfiol gyda llawer o ysgolion drwy'r 'Invisible Walls Accord.'

Mae hefyd wedi dechrau dylanwadu ar syniadau, polisi ac arfer yn genedlaethol (ac, i raddau, yn rhyngwladol).

Ar gyfer yr adroddiad ymchwil[1] 'Prisoners' children and families: Can the walls be 'invisible'? Evaluation of Invisible Walls Wales' gweler http://www.europris.org/news/key-findings-prisoners-children-and-families-evaluation-of-invisible-walls-wales-2017/ neu https://wccsj.ac.uk/publications-research/printed/2017. Mae erthygl cyfnodolyn ddiweddar[2] ar gael ar: http://journals.sagepub.com/doi/abs/10.1177/2066220317742634 .

*Mae'r erthygl hon wedi'i darparu gan Anna Clancy a Mike Maguire, Prifysgol De Cymru*

[1] Clancy, A. a Maguire, M (2017) Prisoners' children and families: Can the walls be 'invisible'? Gwerthusiad o Invisible Walls Wales. Prifysgol De Cymru.
[2] Clancy, A. a Maguire, M. (2017) 'Prisoners and their children: an innovative model of "whole family" support.' Cyfnodolyn Prawf Ewrop, Rhifyn 9, 3: 210-30.

## Diweddariad ar Brofiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod....

Yn ein rhifyn cyntaf, bu i ni ddweud wrthoch chi am Brofiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod, eu heffaith a sut mae 'carchariad rhiant' yn un o'r 11 Profiad Niweidiol yn Ystod Plentyndod. Gallwch ddilyn gwaith y Ganolfan Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod, dod i wybod am ddigwyddiadau maen nhw'n eu trefnu, cymryd rhan a rhannu eich profiadau drwy Twitter @acehubwales a Facebook/acehubwales

# Ymgysylltu ag Ysgolion yn Dechrau

Os ydych yn ysgol, neu yn gweithio gydag ysgol a hoffai gymryd rhan mewn gwaith i gefnogi plant sydd ag aelod o'r teulu yn y carchar, cysylltwch â'r tîm rhanbarthol.  Er gwybodaeth:

- mae ysgolion sy'n cymryd rhan yn Sir y Fflint wedi sefydlu Grŵp Cefnogaeth FABI ar ôl cael hyfforddiant 'Dedfryd Gudd' – cysylltwch ag Emma Baines i gael gwybodaeth: emma.baines@flintshire.gov.uk; a

- cynhelir cyfarfod o Benaethiaid Gwasanaethau Addysg a Phlant Awdurdodau Lleol yng Ngharchar Berwyn ym mis Mai i alluogi awdurdodau lleol ac ysgolion i ddeall yr effaith ar blant o gael aelod o'r teulu yn y carchar a sut beth yw ymweld â nhw yn y mannau diogel.

# WYDDOCH CHI?



- Ymwelodd 1,215 o blant â Charchar Berwyn ym mis Mawrth 2018

- Mae'r rhan fwyaf o blant sydd â thad yn y carchar yn cael gofal gan eu mam

- Dim ond 9% o blant sydd â mam yn y carchar sy'n cael gofal gan eu tad

- Mae tua 4,000 o blant yng Nghymru a Lloegr yn cael gofal gan eu neiniau a theidiau bob blwyddyn oherwydd bod eu mam yn y carchar

# Gwefan i Ddod yn Fuan...

Bydd gwefan i'r  ar gael cyn hir ar wefan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd. Felly, byddwch yn gallu dilyn gwaith y rhaglen a rhannu eich profiadau.

Os hoffech ddeall mwy am y gwaith, cysylltwch â:
sara.kettle@wrexham.gov.uk / 01978 292453 neu
catherine.pritchard@wrexham.gov.uk / 01978 292444.

